	Polisi Presenoldeb Attendance Policy	Polisi / Policy **5**

AELOD STAFF DYNODEDIG Â CHYFRIFOLDEB AM FONITRO PRESENOLDEB:

Geraint Thomas

RHIF CYSWLLT: 01545 570 313

E-bost: thomasg666@hwbcymru.net

AELOD ENWEBEDIG O'R CORFF LLYWODRAETHOL AR GYFER MONITRO PRESENOLDEB:

Cysylltiadau o fewn yr Awdurdod Lleol

Y swyddog dynodedig o fewn Cyngor Sir Ceredigion yw Catrin Petche
RHIF CYSWLLT: 01545 570881

E-BOST: catrin.petche@ceredigion.gov.uk

Cyflwyniad

Mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon yn un o'r ffyrdd pwysicaf o sicrhau bod eich plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd.

Mae Ysgol Gynradd Aberaeron wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn cyrraedd ei lawn botensial dysgu a datblygiad. Er mwyn i ddisgyblion gael y budd gorau o'u haddysg, mae'n hanfodol eu bod yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon, bob dydd y mae'r ysgol ar agor, oni bai bod rheswm anorfod dros eu habsenoldeb. Mae Ysgol Gynradd Aberaeron yn cydnabod y gall fod adegau pan fydd plant a phobl ifanc yn sâl ac yn methu dod i'r ysgol neu pan fydd argyfwng teuluol yn codi.

Bydd yr ysgol yn dilyn gweithdrefnau Diogelu Plant Cymru Gyfan a phrotocolau lleol mewn perthynas â materion lles penodol ac adnabyddadwy sy'n atal plentyn rhag cael mynediad at addysg, neu lle mae pryderon diogelu yn bodoli.

Er mwyn i ddisgybl gyflawni ei lawn botensial addysgol, mae lefel uchel o bresenoldeb yn hanfodol. Byddwn yn gweithio'n gyson tuag at nod o 100% o bresenoldeb ar gyfer pob disgybl. Defnyddir pob cyfle i gyfleu i ddisgyblion a'u rhieni neu ofalwyr bwysigrwydd presenoldeb rheolaidd a phrydlon.

Mae presenoldeb ysgol yn ddarostyngedig i gyfraith addysg a chanllawiau statudol, ac mae ein polisi presenoldeb wedi'i lunio i adlewyrchu'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Am wybodaeth ynghylch y ddeddfwriaeth a'r canllawiau hyn, gweler Atodiad 3.

Bydd yr ysgol yn adolygu ei systemau ar gyfer gwella presenoldeb yn flynyddol er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni'r nodau a'r targedau a bennwyd gan y Llywodraethwyr, yr Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru.

Bydd y polisi hwn yn cynnwys y gweithdrefnau y bydd yr ysgol yn eu defnyddio i weithio tuag at gyflawni ei thargedau presenoldeb, fel y'u pennwyd gan yr Awdurdod Lleol.

Er mai cyfrifoldeb cyfreithiol y rhieni yw sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plentyn yn yr ysgol, mae'r ysgol a'r Awdurdod Lleol yn rhannu'r cyfrifoldeb hwnnw drwy annog presenoldeb da a gwella presenoldeb gwael.

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r ysgol gadw cofnodion penodol a chynhyrchu gwybodaeth benodol am bresenoldeb disgyblion.

Y tu hwnt i'r gofynion statudol, mae'r ysgol wedi ymrwymo i wella safonau presenoldeb fel dull uniongyrchol o godi safonau cyflawniad disgyblion.

Mae presenoldeb gwael yn niweidiol i gyflawniad addysgol, yn tanseilio lles pob disgybl ac yn cael effaith negyddol ar forâl staff.

Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd statudol i sicrhau bod pob plentyn y mae'n gyfrifol amdano yn derbyn addysg briodol ac, os yw wedi'i gofrestru mewn ysgol, mae hyn yn golygu mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

Gweithdrefnau'r Ysgol

Bydd systemau a gweithdrefnau clir yn llywodraethu'r ymateb i bob absenoldeb disgybl. Bydd yr ysgol yn dilyn siart llif "Gweithdrefnau ar gyfer Diffyg Presenoldeb" (Atodiad 1).

Bydd unrhyw ddisgybl sy'n absennol yn ystod cofrestru'r bore neu'r prynhawn yn cael ei gofnodi fel:

- Absenoldeb awdurdodedig;
- Absenoldeb anawdurdodedig;
- Weithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo (presenoldeb oddi ar y safle).

Dim ond y Pennaeth, neu aelod o staff sy'n gweithredu ar ei ran, all awdurdodi absenoldeb.

Os nad oes rheswm hysbys dros yr absenoldeb pan gofnodir y gofrestr, bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi i ddechrau fel absenoldeb anesboniadwy (cod N) a bydd yr ysgol yn ymchwilio'n brydlon fel rhan o'i strategaethau ymyrraeth gynnar a diogelu.

Gall hyn gynnwys:

- Galwad ffôn;
- Neu e-bost at y rhiant neu'r gofalwr i holi am leoliad y disgybl.

Os na ddarperir rheswm erbyn diwedd 10 diwrnod ysgol, neu os nad yw'r rheswm a ddarperir yn rhesymol, bydd yr absenoldeb yn cael ei ail-godio fel absenoldeb anawdurdodedig (cod O).

Bydd codio pob absenoldeb yn unol â chanllawiau Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru, fel yn Atodiad 2.

Prydlondeb

Bydd cofrestru'r bore yn digwydd am 9:00yb, a chofrestru'r prynhawn am 1:00yp. Bydd y cofrestrau'n aros ar agor am uchafswm o 30 munud o'r amseroedd hyn, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Bydd disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr yn cael eu cofnodi fel:

- L – Yn hwyr cyn i'r gofrestr gau (yn cyrraedd rhwng 9:00 a 9:30yb)
- U – Yn hwyr ar ôl i'r gofrestr gau (yn cyrraedd ar ôl 9:30yb). Mae hyn yn cyfrif fel absenoldeb anawdurdodedig.

Nid yn unig mae cyrraedd yn hwyr yn amharu ar addysg y disgybl sy'n hwyr, mae hefyd yn amharu ar addysg y disgyblion sydd eisoes yn yr ysgol.

Mae colli 20 munud bob wythnos yn gyfwerth â mwy na 11 awr neu bron 3 diwrnod ysgol llawn o ddysgu dros flwyddyn.

Os bydd problem o gyrraedd yn hwyr yn parhau, gall yr ysgol ysgrifennu at y rhieni i dynnu sylw at effaith hyn ar bresenoldeb a chyrhaeddiad eu plentyn.

Os bydd y broblem yn parhau, bydd yr ysgol yn anfon ail lythyr yn gwahodd y rhiant neu'r gofalwr i gyfarfod er mwyn trafod y rhwystrau sy'n atal cyrraedd yn brydlon ac i gynnig cymorth priodol.

Absenoldeb ar y Diwrnod Cyntaf

Atgoffir rhieni a gofalwyr y dylent gysylltu â'r ysgol erbyn 9:00yb os na all eu plentyn fynychu'r ysgol ar y diwrnod hwnnw.

Dylid hysbysu'r ysgol drwy:

- ParentMail
- E-bost: swyddfa@ysgolgynraddaberaeron.ceredigion.sch.uk
- Ffôn: 01545 570313

Gan ddarparu'r manylion canlynol:

- Enw'r disgybl
- Blwyddyn y disgybl
- Natur y salwch neu'r rheswm dros yr absenoldeb
- Y dyddiad disgwyliedig o ddychwelyd
- Enw'r sawl sy'n ffonio a'i berthynas â'r disgybl

Dylai rhieni fod yn barod i ateb cwestiynau gan staff yr ysgol ynghylch cyflwr y disgybl, patrymau neu dueddiadau mewn absenoldebau ac unrhyw driniaeth y maent yn ei derbyn.

Os na fydd rhiant neu ofalwr yn cysylltu â'r ysgol, bydd staff yn ceisio canfod y rheswm dros yr absenoldeb cyn gynted â phosibl ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb. Gall hyn gynnwys:

- Galwad ffôn
- E-bost

- Ymweliad cartref gan aelod o staff
- Neu gais i'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg gynnal gwiriad lles

Pan dderbynnir gwybodaeth, bydd y gofrestr yn cael ei diweddaru gyda'r cod absenoldeb priodol.

Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n cael eu hystyried yn fregus, megis y rhai sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Plant neu blant sy'n derbyn gofal.

Bydd yr ysgol yn cysylltu â'r gweithiwr achos perthnasol cyn gynted â phosibl os yw disgybl sy'n hysbys i'r gwasanaethau hyn yn absennol heb reswm.

Gall unrhyw ddysgwr gael ymweliad gan y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg os oes pryderon ynghylch presenoldeb neu ddiffyg cyswllt gan rieni. Nod yr ymweliadau hyn yw cynnig y gefnogaeth briodol i oresgyn unrhyw rwystrau i fynychu'r ysgol.

Nodiadau Absenoldeb a Thystiolaeth Ategol

Bydd nodiadau a dderbynnir gan rieni sy'n egluro'r rheswm dros absenoldeb yn cael eu cadw ar ffeil yn unol â pholisïau cadw cofnodion yr ysgol. Mae rhieni a gofalwyr yn ymwybodol mai dim ond y Pennaeth neu ei gynrychiolydd all awdurdodi absenoldeb, ac y gall fod angen gwybodaeth ychwanegol, megis llythyr gan feddyg teulu neu ymgynghorydd, i gefnogi'r rhesymau a roddir dros absenoldeb.

Absenoldebau Meddygol a Salwch

Mae'r ysgol yn cydnabod bod adegau pan fo'n rhaid i ddisgybl fynychu apwyntiad meddygol yn ystod y diwrnod ysgol. Mewn achosion o'r fath, dylid darparu copi o lythyr yr apwyntiad ysbyty i'r ysgol cyn dyddiad yr apwyntiad er mwyn rhoi gwybod i'r ysgol am yr amser a drefnwyd.

Fodd bynnag, nid yw hyn yn berthnasol i apwyntiadau meddyg teulu neu ddeintydd arferol, y dylid, lle bynnag y bo modd, eu trefnu y tu allan i oriau ysgol.

Os yw disgybl yn absennol yn rheolaidd oherwydd salwch, gall yr ysgol ofyn am dystiolaeth ategol sy'n dangos bod y disgybl yn derbyn y driniaeth feddygol angenrheidiol. Gallai cerdyn apwyntiad, llythyr gan ymgynghorydd neu lun o feddyginiaeth ar bresgripsiwn fod yn dystiolaeth feddygol ddigonol.

Heb y dystiolaeth angenrheidiol, gall yr ysgol hysbysu'r rhiant neu'r gofalwr y bydd pob absenoldeb yn y dyfodol yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig nes bod y dystiolaeth feddygol briodol wedi'i darparu, a gall atgyfeiriad gael ei wneud i'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.

Absenoldeb Parhaus

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio absenoldeb parhaus fel disgyblion sydd ag absenoldeb o fwy na 10% (h.y. llai na 90% presenoldeb).

Gall absenoldeb parhaus arwain at atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg er mwyn darparu cymorth ychwanegol i'r disgybl a'i deulu.

Mae Ysgol Gynradd Aberaeron yn cyfarfod yn rheolaidd â'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg i fonitro pob disgybl sydd â phresenoldeb o dan 95%.

Beth sy'n digwydd pan fydd presenoldeb eich plentyn yn destun pryder?

- Gall rhieni dderbyn llythyr gan yr ysgol yn rhoi gwybod iddynt am bresenoldeb eu plentyn a nifer y diwrnodau a gollwyd.
- Os bydd presenoldeb yn parhau i fod yn destun pryder, gall yr ysgol wahodd rhieni i gyfarfod. Gall y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg neu asiantaethau perthnasol eraill hefyd gael eu gwahodd i fynychu.
- Yn dilyn cyfarfod, os bydd presenoldeb eich plentyn yn parhau i fod yn destun pryder, gall yr ysgol wneud atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.
- Eich cyfrifoldeb cyfreithiol chi yw sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Gall caniatáu absenoldeb o'r ysgol heb reswm da arwain at gyhoeddi hysbysiad cosb benodedig neu erlyniad. Mae absenoldebau rheolaidd yn amharu ar batrwm dysgu plentyn a gallant effeithio'n ddifrifol ar ei gynnydd addysgol.

Caniatâd Absenoldeb/Gwyliau yn ystod y Tymor

Anogir yn gryf i rieni beidio â chymryd eu plant allan o'r ysgol yn ystod y tymor gan y gall hyn gael effaith negyddol ar ddysgu, cynnydd a gallu'r disgybl i gael mynediad at y cwricwlwm llawn.

Nid oes gan rieni a gofalwyr hawl awtomatig i dynnu eu plant allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor. Yn unol â chanllawiau'r Awdurdod Lleol, ni fydd absenoldebau ar gyfer gwyliau teuluol fel arfer yn cael eu hawdurdodi.

Lle mae rhiant neu ofalwr yn bwriadu cymryd ei blentyn allan o'r ysgol ar gyfer gwyliau teuluol yn ystod y tymor, dylid hysbysu'r ysgol ymlaen llaw drwy e-bost at:

prif@ysgolgynraddaberaeron.ceredigion.sch.uk

Mae'r wybodaeth hon yn galluogi'r ysgol i gynnal cofnodion presenoldeb cywir ac i sicrhau bod gweithdrefnau diogelu priodol yn cael eu dilyn.

Bydd y Pennaeth yn cydnabod derbyn yr hysbysiad; fodd bynnag, ni ddylid dehongli hyn fel awdurdodiad ar gyfer yr absenoldeb. Dylai rhieni a gofalwyr fod yn ymwybodol y bydd unrhyw absenoldeb oherwydd gwyliau teuluol a gymerir yn ystod y tymor yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn berthnasol.

Lle mae gan rieni blant sy'n mynychu mwy nag un ysgol, dylid cyflwyno hysbysiad ar wahân i bob ysgol.

Atgoffir rhieni a gofalwyr fod presenoldeb rheolaidd yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlyniadau addysgol gorau posibl, ac y gall amser a gollir o'r ysgol gael effaith sylweddol ar ddysgu a chynnydd plentyn.

Hysbysiadau Cosb Benodedig am Ddiffyg Presenoldeb yn yr Ysgol

Gall yr ysgol ofyn i'r awdurdod lleol gyhoeddi hysbysiad cosb benodedig os yw rhiant/gofalwr wedi methu sicrhau presenoldeb rheolaidd eu plentyn yn yr ysgol.

1. Gellir gwneud cais am hysbysiad cosb o dan un o'r meini prawf canlynol:
2. leiaf 10 sesiwn o absenoldeb anawdurdodedig o fewn tymor, a bod presenoldeb y disgybl yn disgyn o dan 90% yn ystod y flwyddyn academaidd. Nid oes rhaid i'r absenoldebau hyn fod yn olynol.

3. Cyrraedd yn hwyr i'r ysgol ar ôl i'r gofrestr gau a chael ei gofnodi fel cod U, yn unol â Chanllawiau Codau Llywodraeth Cymru 2010. At ddibenion y ddogfen hon, mae prydlondeb gwael parhaus yn cynnwys o leiaf 10 sesiwn o absenoldeb anawdurdodedig (Cod U), a bod presenoldeb y disgybl yn disgyn o dan 90% yn ystod y flwyddyn academaidd. Nid oes rhaid i'r rhain fod yn olynol.

Pan fo rhieni/gofalwyr wedi methu ymgysylltu â'r ysgol a/neu'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg mewn ymdrechion i wella presenoldeb, ond lle nad yw camau llys wedi'u cychwyn eto.

Er mwyn cydymffurfio â Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, bydd Ysgol Gynradd Aberaeron yn gweithredu yn unol â Chod Ymddygiad yr Awdurdod Lleol ar gyfer hysbysiadau cosb am ddiffyg presenoldeb rheolaidd.

Bydd pob achos o absenoldeb yn cael ei ystyried yn unigol, ac os yw'n briodol gall yr ysgol ofyn am hysbysiad cosb er mwyn annog gwell presenoldeb yn y dyfodol.

Os yw presenoldeb disgybl yn sylweddol isel, gellir ystyried atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Lles Addysg fel dewis arall yn lle gofyn am hysbysiad cosb.

Yn y pen draw, os na ellir datrys mater presenoldeb gan yr ysgol ac os yw'r camau priodol wedi'u dilyn (fel yr amlinellir yn y "Gweithdrefnau ar gyfer Diffyg Presenoldeb"), bydd atgyfeiriad yn cael ei wneud i'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg ar gyfer ymchwiliad pellach.

Rolau a Chyfrifoldebau

Mae Ysgol Gynradd Aberaeron yn cydnabod bod sicrhau presenoldeb rheolaidd yn dibynnu ar sefydlu a defnyddio perthnasoedd gwaith agos rhwng rhieni, disgyblion, ysgolion, yr awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant.

Rhan allweddol o unrhyw berthynas waith lwyddiannus yw dealltwriaeth glir o rôl a chyfrifoldebau pob unigolyn. Felly, mae'r adran hon yn egluro'r rolau a'r cyfrifoldebau hynny mewn perthynas â mynd i'r afael â materion presenoldeb.

Rhiant/Gofalwr

Mae Deddf Addysg 1996 yn nodi bod rhaid i bob plentyn o oedran ysgol gorfodol (rhwng 5 a 16 oed) gael mynediad at addysg lawn amser addas. Rhaid i rieni sicrhau hyn drwy gofrestru eu plentyn mewn ysgol neu ddarparu trefniant addysgol addas arall.

Mae oedran ysgol gorfodol yn golygu bod yn rhaid i blant a phobl ifanc fynychu'r ysgol o ddechrau'r tymor cyntaf sy'n dilyn eu pen-blwydd yn bump oed, ac maent yn parhau o oedran ysgol gorfodol tan ar ôl dydd Gwener olaf mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y maent yn troi'n 16 oed.

Mae prydlondeb hefyd yn ofyniad cyfreithiol, a gall rhieni/gofalwyr disgybl sy'n cyrraedd yn hwyr yn barhaus (ar ôl i'r gofrestr gau) wynebu camau cyfreithiol.

Weithiau gall amgylchiadau cartref wneud hi'n anodd i ddisgybl gyrraedd yn brydlon. Mewn achosion o'r fath bydd ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i unrhyw gymorth neu gefnogaeth y gallai'r teulu ei hangen.

Dylai rhieni gysylltu â'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf unrhyw absenoldeb.

Dylai rhieni hefyd siarad â'r ysgol cyn gynted â phosibl os ydynt yn pryderu bod eu plentyn yn amharod i fynychu'r ysgol.

Ysgol

O dan Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010, mae'n ofynnol i ysgolion gymryd cofrestr presenoldeb ddwywaith y dydd; ar ddechrau sesiwn y bore ac unwaith yn ystod sesiwn y prynhawn. Mae cywirdeb y gofrestr yn bwysig er mwyn cefnogi unrhyw ymyriadau statudol y gall fod eu hangen. Dylid nodi ei bod yn drosedd peidio â chadw cofrestrau cywir.

Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb i fonitro cyfraddau presenoldeb unigol o leiaf yn wythnosol a defnyddio ei dulliau ymyrraeth ei hun i fynd i'r afael â phroblemau presenoldeb unigol lle mae cyfradd presenoldeb y disgybl yn 86% neu'n uwch.

Dylai'r ysgol wneud atgyfeiriad i'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg pan fydd presenoldeb unigolyn yn disgyn i un o'r categorïau canlynol:

- Mae gan y disgybl gyfradd presenoldeb o 85% neu lai dros gyfnod o 6 wythnos lle mae mwyafrif yr absenoldebau yn anawdurdodedig.
- Bloc o 20 sesiwn o absenoldeb heb reswm boddhaol.
- Presenoldeb afreolaidd cyson nad yw staff, yn dilyn ymchwiliad gan yr ysgol, yn gallu ei awdurdodi.
- Rhesymau meddygol a fydd yn effeithio'n sylweddol ar bresenoldeb a dysgu'r disgybl.
- Mae'r plentyn ar goll.

Fodd bynnag, gall yr ysgol gyfeirio disgybl at y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg os oes pryderon ynghylch lles yr unigolyn er bod ei bresenoldeb dros 85%, neu os oes angen ymweliad gwirio lles.

Yr Aelod Staff Dynodedig

Cyfrifoldeb pob aelod o staff yw presenoldeb. Fodd bynnag, mae aelod penodol o staff wedi'i ddynodi i fod yn gyfrifol am bresenoldeb, ac mae pob aelod o staff yn gallu trafod presenoldeb disgyblion unigol gyda'r person hwn.

Bydd yr Aelod Staff Dynodedig dros Bresenoldeb yn:

- Monitro cofrestrau'r ysgol.
- Cysylltu â staff addysgu, yn enwedig arweinwyr dosbarthiadau/blwyddyn.
- Cyfarfod yn rheolaidd â'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg.
- Cyfeirio at asiantaethau eraill lle bo hynny'n briodol.
- Cyfeirio at nyrs yr ysgol os oes amheuon ynghylch dilysrwydd salwch.
- Goruchwylio'r defnydd o lythyrau safonol at rieni sy'n ymwneud ag agweddau penodol ar bresenoldeb ac sy'n gofyn am ymateb gan rieni.
- Trefnu cyfarfod presenoldeb mewn achosion o absenoldebau ailadroddus heb esboniad (gall yr ysgol ystyried gwahodd y llywodraethwr cyfrifol am bresenoldeb i gyfarfod o'r fath).
- Sicrhau bod rôl y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg yn cael ei deall yn glir o fewn yr ysgol.

Y Pennaeth

Bydd y Pennaeth yn gyfrifol am reolaeth strategol presenoldeb ar draws yr ysgol. Bydd yn craffu ar y data yn wythnosol, yn monitro tueddiadau a phatrymau ar draws grwpiau o ddisgyblion, ac yn gwerthuso effaith ac effeithiolrwydd ymyriadau er mwyn cyfeirio adnoddau at y canlyniadau gorau posibl.

Bydd y Pennaeth yn cyflwyno data presenoldeb i'r Corff Llywodraethol bob tymor er mwyn ei graffu.

Athrawon Dosbarth

Bydd athrawon dosbarth yn gyfrifol am gwblhau cofrestrau pob sesiwn yn llawn ac yn gywir ym mhob cyfnod cofrestru.

Mae'r arfer hwn yn sicrhau gweithdrefnau diogelu cadarn, gan alluogi'r ysgol i wybod lleoliad pob disgybl ar ddechrau pob sesiwn ac yn galluogi clerciaid/rheolwyr swyddfa'r ysgol i ddechrau'r broses "ymateb diwrnod cyntaf" os nad yw disgybl yn bresennol.

Swyddog Presenoldeb / Clerc yr Ysgol / Rheolwr Swyddfa

Bydd y Swyddog Presenoldeb, Clerc yr Ysgol neu'r Rheolwr Swyddfa yn gyfrifol am ddyletswyddau gweithredol dyddiol y tîm presenoldeb.

Byddant yn:

- Sicrhau bod pob cofrestr, sesiwn a gwers, yn cael ei chwblhau'n ddyddiol.
- Hysbysu'r Pennaeth os nad yw cofrestrau wedi'u cwblhau er mwyn gweithredu.
- Cynnal y broses "ymateb diwrnod cyntaf" bob bore ar gyfer disgyblion nad yw eu teuluoedd wedi cysylltu â'r ysgol.
- Casglu tystiolaeth ategol.
- Dilyn i fyny unrhyw ffurflenni, nodiadau absenoldeb, hysbysiadau gwyliau neu ddogfennau perthnasol sy'n weddill.

Y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg

Prif swyddogaeth y Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg yw gwella presenoldeb ym mhob ysgol a darpariaeth addysg amgen ar draws yr awdurdod lleol drwy gefnogi disgyblion a'u teuluoedd i oresgyn rhwystrau i ymgysylltu.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i ysgolion, disgyblion a'u teuluoedd i sicrhau presenoldeb rheolaidd ac i fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau sy'n ymwneud ag absenoldeb.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg yn gweithio ar y cyd ag ystod eang o wasanaethau ac asiantaethau cymorth ac yn darparu cyswllt hanfodol rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar y cyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar ran yr awdurdod yn ei rôl orfodi statudol ac mae'n gyfrifol am nifer o ddyletswyddau cysylltiedig, gan gynnwys:

- Rheoleiddio a chyhoeddi trwyddedau cyflogaeth a pherfformio i blant a phobl ifanc o oedran ysgol, ynghyd â'u hebrwngwyr.

- Ymchwilio i, lleoli a thracio plant sy'n cael eu hatgyfeirio fel "Plant ar Goll o Addysg".
- Goruchwylio anghenion addysgol disgyblion bregus, megis teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr.
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Heddlu wrth drefnu a chydlynu gweithrediadau gwrth-gadw draw ffurfiol yn unol â deddfwriaeth Trosedd ac Anhrefn.

Mentrau Presenoldeb

Bydd yr ysgol a'r awdurdod lleol yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd presenoldeb ysgol, hyrwyddo presenoldeb da a mynd i'r afael ag absenoldebau anawdurdodedig.

Bydd yr ysgol yn ystyried system wobrwyo i gydnabod disgyblion sydd â phresenoldeb rhagorol neu bresenoldeb sy'n gwella.

Rhaid i unrhyw system wobrwyo:

- Fod yn ystyrlon i'r plant.
- Cael ei hamseru'n briodol fel bod plant yn gallu cysylltu eu presenoldeb â'r wobr a dderbyniant.

Bydd yr ysgol yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Cynhwysiant Addysg i weithredu mentrau'r awdurdod lleol megis:

- Ymweliadau Gwirio Lles
- Sesiynau Cyfarfod a Chyfarch
- Grwpiau targediedig.
-

Categorïau Absenoldeb

Rhaid cofnodi pob disgybl sydd ar y gofrestr ond nad yw'n bresennol yn yr ysgol o dan un o'r categorïau canlynol:

- Absenoldeb Awdurdodedig
- Absenoldeb Anawdurdodedig
- Gweithgaredd Addysgol wedi'i Gymeradwyo

Absenoldeb Anawdurdodedig

Defnyddir y codau hyn ar gyfer sesiynau pan fo disgyblion yn absennol ac nad oes rheswm wedi'i ddarparu, neu pan ystyrir nad oes rheswm dilys dros yr absenoldeb, e.e.:

- Teithiau siopa
- Mynychu cyngerdd
- Torri gwallt
- Methu'r bws
- Gofalu am frawd/chwaer
- Gofalu am riant sy'n sâl
- Penblwyddi
- Diffyg gwisg ysgol
- Gwyliau

Absenoldeb Awdurdodedig

Defnyddir y codau hyn ar gyfer sesiynau pan fo disgyblion yn absennol am reswm sy'n cael ei ystyried yn ddilys, e.e.:

- Salwch gwirioneddol
- Apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol anorfod
- Dyddiau o ddefodau crefyddol
- Amgylchiadau teuluol eithriadol

Gellir gofyn am dystiolaeth i gefnogi'r rheswm a roddwyd (e.e. tystiolaeth feddygol, cardiau apwyntiad ac ati).

Gweithgaredd Addysgol wedi'i Gymeradwyo

Mae'r codau hyn yn cynnwys gweithgareddau addysgol dan oruchwyliaeth a gynhelir oddi ar safle'r ysgol ond gyda chymeradwyaeth yr ysgol a/neu'r Awdurdod Lleol, lle mae'r sesiwn wedi'i goruchwylio gan diwtor cymeradwy.

Gall hyn gynnwys:

- Lleoliadau profiad gwaith
- Teithiau maes ac ymweliadau addysgol
- Gweithgareddau chwaraeon
- Cyrsiau cyswllt neu addysg gymeradwy mewn lleoliad arall

Cofrestriad Deuol

Bydd disgyblion sy'n mynychu ysgol neu uned arall yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn y ddau leoliad.

Mae statws cofrestru o fewn y System Gwybodaeth Reoli (MIS) yn nodi'r prif leoliad addysg a'r lleoliad atodol. Enghraifft fyddai disgybl sydd wedi'i gofrestru yn yr ysgol hon ond sy'n mynychu uned cyfeirio disgyblion ar rai diwrnodau bob wythnos. Y brif ysgol fydd yr un y mae'r plentyn yn ei mynychu am fwy na 50% o'i amser. Y lleoliad arall fydd y lleoliad atodol.

Ysgol neu ddarpariaeth lle disgwylir i'r plentyn fynychu sy'n gyfrifol am gofnodi presenoldeb y disgybl yn gywir ac am ddilyn i fyny unrhyw absenoldebau.

Bydd yr ysgol yn cysylltu â'r darparwr addysg arall yn ddyddiol er mwyn adnabod y disgyblion sy'n absennol ar gyfer y sesiwn ac yn cofnodi'r gofrestr yn unol â hynny.

Cadw Cofnodion

Mae rheoliadau presenoldeb yn nodi y dylid cadw cofnodion presenoldeb am o leiaf dair blynedd. Fodd bynnag, mae'n arfer da ymestyn y cyfnod hwn yn unol ag amserlenni cadw cofnodion addysgol.

Gwiriadau Cofrestrau

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio cofrestrau'r ysgol yn ffurfiol bob tymor er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth genedlaethol.

Dylid nodi bod cofrestrau ysgol yn ddogfennau cyfreithiol ac mai trosedd yw peidio â chynnal cofnodion cywir.

Targedau Presenoldeb

Bydd yr ysgol a'r Corff Llywodraethol yn defnyddio'r data presenoldeb a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol wrth adolygu targedau a dadansoddi canlyniadau mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg ar draws y rhanbarth.

Bydd y Pennaeth yn cyflwyno data presenoldeb ym mhob adroddiad tymhorol i'r Corff Llywodraethol er mwyn craffu arno ochr yn ochr â data cyrhaeddiad.

Bydd y Llywodraethwyr yn cael cyfle i herio'r data ynghyd â'r gweithdrefnau ar gyfer rheoli presenoldeb, er mwyn mynd i'r afael â chyfraddau absenoldeb cyffredinol yr ysgol ac o fewn grwpiau penodol o ddysgwyr.

Ein targed presenoldeb ysgol yw: 95%

Asesiad Hunanwerthuso

Bydd yr ysgol yn cynhyrchu asesiad hunanwerthuso i ddangos sut y bydd yn gweithio tuag at gyflawni ei thargedau presenoldeb.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Data ar grwpiau bregus o ddysgwyr
- Rheolaeth strategol
- Polisïau a gweithdrefnau presenoldeb
- Rheoli a monitro presenoldeb
- Cyfathrebu

Bydd yr asesiad hunanwerthuso hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol a bydd yn cael ei ddefnyddio i lywio Cynllun Gwella'r Ysgol.

Monitro a Gwerthuso'r Polisi


Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Dyddiad cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol: .....

Cadeirydd: .....

Llywodraethwr Dynodedig dros Bresenoldeb Ysgol: .....

Gweithdrefnau Absenoldeb



ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
cenhadaeth ein cenedl | our national mission

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

School attendance codes changes

We have updated the school attendance codes and accompanying guidance to support accurate and consistent recording of attendance across Wales. Consistent attendance enables pupils to develop key skills, build and maintain positive relationships, and remain connected to their school community.

The use of clear and consistent attendance codes helps identify patterns of absence more effectively and to take action if necessary. There are 5 categories for recording attendance. The table below shows the categories with new codes or a changed category highlighted in green.

	Category	Codes												
	Present – the pupil is in school or is attending on time.	/ \	L											
	Approved educational activity – the pupil is learning off-site, for example placements or activities approved by school.	B	B1	B2	J	P1	P2	V	W					
	Authorised absence – the pupil is absent with school approval, for example illness or agreed leave.	C1	C2	C3	C4	F	H	I1	I2	M	S	E	R	T
	Unauthorised absence – the pupil is absent without an accepted reason.	N	O	G	U									
	Not required to attend – the pupil is not expected to be in school, for example closure or dual registration days.	D1	X	Y1	Y2	Z	#							

More information can be found in the 'School attendance codes: guidance' on the Welsh Government website:

www.gov.wales/school-attendance-codes-guidance

OGL © Crown copyright 2026 Welsh Government, WG54694



Codau Presenoldeb Diwygiedig 2026

Cod	Ystyr	Categori ystadegol
/ \	Yn bresennol wrth gofrestru	Presennol
L	Yn hwyr ond wedi cyrraedd cyn i'r gofrestr gau	Presennol
B	Yn cael addysg oddi ar y safle (nid cofrestriad deuol)	Gweithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo
B	Disgybl yn derbyn dysgu ar-lein a ddarperir gan awdurdod lleol	Gweithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo
B	Disgybl yn derbyn dysgu ar-lein a ddarperir gan yr ysgol	Gweithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo
J	Cyfweliad	Gweithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo
P1	Gweithgaredd chwaraeon wedi'i gymeradwyo	Gweithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo
P2	Perfformiad wedi'i gymeradwyo	Gweithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo
V	Ymweliad neu daith addysgol	Gweithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo
W	Profiad gwaith (nid hyfforddiant seiliedig ar waith)	Gweithgaredd addysgol wedi'i gymeradwyo
C1	Amgylchiadau awdurdodedig eraill (nad ydynt yn cael eu cynnwys gan god neu ddisgrifiad arall)	Absenoldeb awdurdodedig
C2	Absenoldeb oherwydd perfformiad â thâl	Absenoldeb awdurdodedig
C3	Disgybl ar drefniant ysgol hyblyg (flexi-schooling)	Absenoldeb awdurdodedig
C4	Disgybl ar amserlen ran-amser	Absenoldeb awdurdodedig
F	Gwyliau teulu estynedig wedi'u cymeradwyo	Absenoldeb awdurdodedig
H	Gwyliau teulu wedi'u cymeradwyo	Absenoldeb awdurdodedig
I1	Salwch corfforol	Absenoldeb awdurdodedig
I2	Salwch nad yw'n gorfforol	Absenoldeb awdurdodedig
M	Apwyntiad meddygol neu ddeintyddol	Absenoldeb awdurdodedig
S	Absenoldeb astudio	Absenoldeb awdurdodedig
E	Wedi'i wahardd ond heb ddarpariaeth amgen wedi'i threfnu	Absenoldeb awdurdodedig
R	Diwrnod wedi'i neilltuo'n gyfan gwbl ar gyfer defod grefyddol	Absenoldeb awdurdodedig
T	Absenoldeb teithiwr	Absenoldeb awdurdodedig
N	Dim rheswm dros yr absenoldeb wedi'i ddarparu eto	Absenoldeb anawdurdodedig
O	Absenoldeb anawdurdodedig arall (nad yw'n cael ei gynnwys gan god neu ddisgrifiad arall)	Absenoldeb anawdurdodedig
G	Gwyliau teulu (heb eu cymeradwyo neu'n fwy na'r cyfnod a ganiatawyd)	Absenoldeb anawdurdodedig
U	Yn hwyr ac wedi cyrraedd ar ôl i'r gofrestr gau	Absenoldeb anawdurdodedig
D1	Cofrestriad deuol (disgybl yn mynychu lleoliad addysgol arall)	Nid oes angen mynychu
X	Sesiynau heb eu hamserlennu ar gyfer disgyblion nad ydynt o oedran ysgol gorfodol	Nid oes angen mynychu
Y1	Cau rhannol	Nid oes angen mynychu
Y	Cau'r ysgol gyfan	Nid oes angen mynychu
Z	Disgybl heb ei gofrestru eto	Nid oes angen mynychu
#	Ysgol ar gau i bob disgybl	Nid oes angen mynychu

DESIGNATED STAFF MEMBER WITH RESPONSIBILITY FOR MONITORING ATTENDANCE:

Geraint Thomas

CONTACT NUMBER: 01545 570 313

E-Mail - thomasg666@hwbcymru.net

NOMINATED MEMBER OF THE GOVERNING BODY FOR MONITORING ATTENDANCE NAME:

Contacts within the Local Authority

The named officer within Ceredigion Local Authority is Catrin Petche

CONTACT NUMBER: 01545 570881

E-MAIL: catrin.petche@ceredigion.gov.uk

Introduction

Attending school regularly and on time is one of the most important ways of making sure your child gets the best possible start in life.

Aberaeron Primary School is committed to ensuring that every child reaches their full learning and development potential. For pupils to get the best out of their education it is vital that they attend regularly and on time, every day the school is open unless the reason for absence is unavoidable. Aberaeron Primary School recognises that sometimes children and young people are sick and cannot come into school or there may be a family emergency.

The school will follow the All Wales Child Safeguarding procedures and local protocols in relation to specific and identifiable wellbeing issues that prevent a child from accessing education, or where there are safeguarding concerns.

For a pupil to reach their full educational achievement, a high level of school attendance is essential. We will consistently work towards a goal of 100% attendance for all pupils. Every opportunity will be used to convey to pupils and their parents or carers the importance of regular and punctual attendance.

School attendance is subject to education law and guidance and our school attendance policy is written to reflect this legislation and the guidance produced by the Welsh Government. For information relating to this legislation and guidance, see Appendix 3.

